# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 12 Hydref 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Adele Dunstan, Cyngor Abertawe
Richard Felton, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Daniel Jones, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Steve King, Cyngor Abertawe
Gary Mahoney, Cyngor Abertawe
Huwel Manley, Cyfoeth Naturiol Cymru
Deanne Martin, H Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
Tracey McNulty, Cyngor Abertawe
Jeremy Parkhouse, Cyngor Abertawe
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jane Richmond, Cyngor Abertawe
Richard Rowlands, Cyngor Abertawe
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Gwynfor Thomas, Gwynfor Thomas, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Truscott, Heddlu De Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Emma Woollett, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Ness Young, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Professor Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Keith Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Martin Nicholls, Cyngor Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Nerissa Vaughan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 11 Cylch Gorchwyl.

Cyflwynodd Ness Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Abertawe, Gylch Gorchwyl diweddaraf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe i'w gymeradwyo.

Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu'r diwygiadau a wnaed a derbyn yr holl newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cylch gorchwyl diweddaredig.

## 12 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 13 Y diweddariadau ar yr 8 cam yng Nghynllun Gweithredu'r BGC 2023-24.

Rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiad cynllun gweithredu 2023-24 a'r cynnydd ar y camau hyd yma.

Amlinellwyd, ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023, fod y camau yn y cynllun gweithredu wedi'u symud ymlaen. Roedd adroddiad yr Arweinwyr Strategol yn Atodiad A yn egluro'r cynnydd ar eu camau.

Ychwanegwyd y byddai'r eitem yn cael ei chyflwyno fel eitem safonol ym mhob cyfarfod ffurfiol y bwrdd.

Cyflwynir amserlen a phroses arfaethedig ar gyfer datblygu camau gweithredu ar gyfer 2024-25 a thu hwnt i'r BGC yng nghyfarfod olaf y BGC ar gyfer 2023-24.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd a wnaed yn chwarter 2 2023-24.
2) Bod adroddiad diweddaru ar y cynllun gweithredu a'i gynnydd yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

## 14 Digwyddiad 'Cerdded yn ein 'sgidiau ni' ar 17 Hydref 2023.

Rhoddodd Richard Felton, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (MWWFA), ddiweddariad llafar ynghylch y digwyddiad 'Cerdded yn 'Sgidiau ni' a drefnwyd ar gyfer 17 Hydref 2023 yng Nghyfleuster Hyfforddi MWWFA Earlswood yn Jersey Marine.

**15 Rhaglen Waith y Dyfodol:**

Nodwyd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.25 pm

**Cadeirydd**